



Polisi Diogelu Ysgol Dyffryn Nantlle

1 Cyflwyniad

Mae Ysgol Dyffryn Nantlle yn cydnabod ei rhwymedigaethau statudol o ran amddiffyn plant mewn addysg. Mae'r ysgol a'r llywodraethwyr yn anelu i sicrhau llesiant a diogelwch plant a phobl ifanc oddi mewn a'r tu allan i'r ysgol a thra eu bod yn gysylltiedig ag unrhyw ddarpariaeth addysgol arall a drefnwyd gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio tuag at gydymffurfio gyda gofynion ac egwyddorion:

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Dogfen Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 272/2021
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (dogfen yr Adran Addysg 001952018) - sydd yn cydymffurfio gyda Deddf Plant 2004
- Polisiâu a Phrotocolau Bwrdd Amddiffyn Plant Gwynedd ac Ynys Môn.

Yr aelod o'r Uwch Dîm Reoli (UDRh) gyda chyfrifoldeb am sicrhau bod yr ysgol yn llawn gyflawni ei dyletswyddau Amddiffyn Plant statudol ac sy'n gweithredu fel yr Person Diogelu Dynodedig (PDD) yw Mrs Clare Jones. Pan fo hi yn absennol neu ddim ar gael, bydd yr aelodau staff isod yn dirprwyo ar ei rhan:

Miss Iola Parry

Y Llywodraethwr dynodedig yw Mrs Sian Jones.

Rôl ysgolion yn y system Amddiffyn Plant yw sicrhau amgylchedd diogel ble gall plant a phobl ifanc ddysgu, gan roi ffocws addas i'w llesiant a'u diogelwch. Dylai pob aelod o'r staff ystyried ei rôl o ran:

- diogelu plant rhag niwed
- atal camdriniaeth
- hyrwyddo llesiant mewn amgylchedd sydd yn annog hynny

Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i gydweithredu gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran plant a phobl ifanc sydd mewn angen neu yn ddi-amddiffyn i'r risg o gamdriniaeth drwy gyfeirio unrhyw bryderon, cyfrannu gwybodaeth a thrwy asesiadau anghenion.

Rhoddir sylw dyladwy i gategoriâu camdriniaeth fel yr amlygwyd yng Nghanllawiau Diogelu Cymru 2019 (Atodiad A):

- Cam-drin corfforol
- Cam-drin emosiynol (yn cynnwys cam-drin seicolegol)
- Cam-drin Rhywiol
- Esgeulustod
- Cam-drin Ariannol

Mae gan pob aelod o staff:

- gyfrifoldeb proffesiynol a chyfreithiol am lesiant a diogelwch plant a phobl ifanc;
- a chyfrifoldeb i '*Chwythu'r Chwiban*' os ydynt yn ymwybodol o unrhyw achos o gamdriniaeth;
- ddilyn y weithdrefn weithredu safonol /canllaw 'beth i'w wneud os ..' (Atodiad F)
- rhaid iddynt fod yn wylidwrus am symptomau camdriniaeth gan ymateb yn unol â chanllawiau diogelu Cymru 2019;
- rhaid bod yn wylidwrus am arwyddion o fwlio;



- bod yn ymwybodol o sut i ymateb pan fo plentyn yn datgelu gwybodaeth a pha fesurau priodol i'w cymryd;
- rhaid bod yn ymwybodol o Ganllawiau Diogelu Cymru.

Yn unol â'r canllawiau, mae gofyn bod pob ysgol yn adnabod athro a llywodraethwr dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant. Yn Ysgol Dyffryn Nantlle ein Cydlynnydd Amddiffyn / Diogelu Plant yw Clare Jones, ac rydym hefyd yn dynodi Llywodraethwr 'cyswllt' Amddiffyn / Diogelu Plant sef Mrs Sian Jones.

2 Diffiniad o Gam-drin Plant

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed, neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed (gweler atodiad 1 ar gyfer y diffiniadau). Gall plant ddioddef camdriniaeth mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol; gan rywun maent yn ei adnabod, neu yn fwy anarferol, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy gynllun amddiffyn rhyngasiantaethol.

3 Cyfrinachedd

Mae angen deall materion cyfrinachedd os yw plentyn yn datgelu gwybodaeth ei fod yn cael ei gam-drin. Efallai bydd plentyn ond yn hyderus i ymddiried mewn aelod o staff os yw'n teimlo na fydd y wybodaeth yn cael ei datgelu i neb arall. Er hynny, mae gan staff addysg gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant gyda'r asiantaethau statudol pan fo plentyn yn profi niwed.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn delio gyda hyn mewn ffordd sensitif gan esbonio i'r plentyn fod yn rhaid iddynt roi gwybod i'r bobl briodol sy'n gallu ei helpu, ond byddant ond yn dweud wrth y rhai sydd angen gwybod fel eu bod yn gallu helpu. Dylid rhoi sicrwydd i'r plentyn a rhoi gwybod iddo na fydd pawb yn yr ysgol yn dod i wybod am ei sefyllfa.

4 ADRAN A - Gweithredu ar Unwaith

Camau gweithredu i'w cymryd gan staff yr ysgol:

- 1 Os yw aelod o staff yn amau fod plentyn wedi cael ei gam-drin neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, yna rhaid iddynt roi gwybod i'r Person Diogelu Dynodedig (PDD) / y Swyddog Amddiffyn Plant neu, os ydynt yn absennol / ddim ar gael, y Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant (DSAP) Iola Parry, ar unwaith wedi iddynt gael gwybod am y pryder drwy fewngofnodi pryder ar 'My Concern'. Er y gellir defnyddio 'My Concern' i fewngofnodi a darparu manylion am achosion posib o gamdriniaeth, **rhaid** i'r aelod o staff gysylltu yn uniongyrchol gyda'r PDD/DSAP i drosglwyddo gwybodaeth am y pryder. Gellir gwneud hyn drwy ffonio Clare Jones (53722) / Iola Parry (53706) yn uniongyrchol ar y rhifau estyniad sydd mewn cromfachau.
- 2 Dylai'r Person Diogelu Dynodedig (PDD) neu os yw ef/hi yn absennol, y Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant (DSAP), roi gwybod ar unwaith ar y ffôn, i'r Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd (Un Pwynt Cyswllt - SPOA), yn yr adran leol sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu ar 01758 704455. Dylai hyn fod yn gyfle i drafod pa gamau sydd angen eu cymryd mewn unrhyw achos unigol a **sut i gadw'r plentyn yn ddiogel**.

Caniatâd Rhiant - Dylid ystyried ceisio caniatâd gan y rhieni cyn trafod atgyfeiriad am eu plentyn gydag asiantaethau eraill.

Ni ddylid gwneud hyn o gwbl yn yr eithriadau isod:



- Ble y gallai gweithredu yn y fath fodd olygu bod y plentyn mewn mwy o berygl;
 - Y posibilrwydd o fygythiadau neu orfodaeth;
 - Colli tystiolaeth bwysig;
 - Dymuniadau'r plentyn nad yw'r rhiant/rhieni yn cael gwybod, ar yr amod fod y plentyn yn gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw;
 - Rheolwyr y Tîm Diogelwch ar y cyd â'r heddlu fydd yn gwneud y penderfyniad os y dylid rhoi gwybod i'r rhieni ai peidio ac nid y cyfeiriwr;
 - Bydd y rhesymau dros y penderfyniad yn cael eu cofnodi yn llawn ar y ffurflen atgyfeirio.
- 3 Mae'n bwysig bod yr atgyfeiriad yn cael ei wneud gan gyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru (2019).
- 4 Dylid darparu gwybodaeth am enw'r plentyn, cyfeiriad, dyddiad geni, enw a chyfeiriad y rhai â chyfrifoldeb rhiant a'r rheswm am y pryder, dylid gwneud hyn yn unol â'r ISP (Protocol Rhannu Gwybodaeth) perthnasol.
- 5 Os cadarnheir y drafodaeth yma fel atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol, dylid cadarnhau hyn yn ysgrifenedig drwy ddefnyddio'r Ffurflen Atgyfeirio Gwasanaethau Cymdeithasol (Atodiad E) a'i hanfon i'r adran sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu yn nhîm diogelu yr Awdurdod Lleol. Dylid ei marcio fel **CYFRINACHOL**.
- 6 Os yw Gweithiwr Cymdeithasol neu Nyrs Ysgol ar gael, efallai y byddant yn gallu cynorthwyo gydag unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen ar unwaith ond mae yn parhau yn gyfrifoldeb i'r Person Diogelu Dynodedig (PDD) neu'r Dirprwy PDD i sicrhau bod y camau gweithredu a amlinellwyd uchod wedi eu cymryd.
- 7 Dylai'r Adran ALI gyda chyfrifoldeb am Ddiogelu roi gwybod pa gamau fydd yn cael eu dechrau a'r camau gweithredu y dylai'r cyfeiriwr eu cymryd o ran cyfathrebu gyda rhieni h.y. ar ba bwynt y dylid cysylltu efo'r rhieni a phwy ddylai wneud hynny.
- 8 Fel arfer, bydd angen i gynrychiolydd o'r ysgol a/neu awdurdod lleol fynychu unrhyw Gynhadledd Achos Amddiffyn Plant Gychwynnol o ganlyniad i hyn.
- 9 Os yw'r ysgolion yn mynychu ai peidio, bydd disgwyl iddynt gyflwyno adroddiad a dylai'r rhain fod ar gael i'r Cadeirydd/Cydlynnydd Diogelu a Chefnogi Amddiffyn Plant 48 awr cyn y cyfarfod, gan lynu at wybodaeth ffeithiol a nid barn neu sibrydion. Mae yn arfer dda i'r ALI i rannu unrhyw adroddiadau gyda'r teulu o leiaf ddiwrnod cyn y gynhadledd.

Mae'n bosib y gofynnir i'r gweithiwr unigol neu broffesiynol sy'n gwneud yr atgyfeiriad i ymgymryd â rhai neu'r cyfan o'r tasgau isod, a dylai fod yn barod ac yn fodlon eu gwneud:

- Cyfrannu at drafodaeth strategaeth neu gyfarfod strategaeth;
- Cynorthwyo gydag ymholiadau adran 47 amddiffyn plant;
- Mynychu'r gynhadledd amddiffyn plant;
- Darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y gynhadledd amddiffyn plant;
- Cyfrannu at yr asesiadau cychwynnol a chraidd.

5 ADRAN B - HONIADAU BOD AELOD O STAFF YN CAM-DRIN

Yn unol â darpariaethau Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae cyrff llywodraethol yn gyfrifol am ymdrin gyda materion disgyblu staff yn yr holl ysgolion a gynhelir. Yn unol â Rheoliadau



Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 2005, mae'r corff llywodraethu hefyd yn gyfrifol am sefydlu Pwyllgorau Disgyblu Staff a Phwyllgorau Apeliadau Disgyblu.

Mae Cylchlythyr **002/2020 'Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgolion'** yn cynnig canllaw i lywodraethwyr sefydlu eu gweithdrefnau eu hunain. Rhaid i weithdrefnau o'r fath gael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y corff llywodraethu, eu hadolygu yng ngoleuni canllaw neu reoliad pellach a'u gwneud yn hysbys i'r holl staff. Rhaid i weithdrefnau o'r fath fod ar wahân ac yn wahanol i'r drefn gwyno a'r gweithdrefnau medruswydd.

Mae cylchlythyr canllaw Llywodraeth Cymru 009/2014 Diogelu Plant Mewn Addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill, yn nodi proses glir i awdurdodau lleol, penaethiaid, staff ysgolion, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol i'w dilyn wrth ymdrin â honiadau o'r fath. Rhaid i gyrff llywodraethu ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

Dylid darllen y canllawiau uchod ar y cyd â'r 'Joint NEOST/Teacher Union Guidance on Education Staff and Child Protection': 'Staff Facing an Allegation of Abuse Guidelines on Practice and Procedure' (Medi 2002) sydd hefyd wedi eu hymgorffori yng ngweithdrefnau amddiffyn plant Gwynedd. Os yw Pennaeth a/neu Cadeirydd Llywodraethwyr yn derbyn honiad amddiffyn plant, dylid ymgynghori â Swyddog Dynodedig yr ALI (Amddiffyn Plant) (LADO), i benderfynu pa gamau y dylid eu cymryd ac a ddylid cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i gael cyngor. Os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth, dylid cyfeirio'r mater i'r Swyddog Amddiffyn Plant a/neu Cadeirydd y Llywodraethwyr (manyllion cyswllt ar gael drwy Glerc y Llywodraethwyr). Mae gofyn i'r Pennaeth, neu Gadeirydd y Llywodraethwyr os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth, gynnal asesiad cychwynnol, ond nid i ymchwilio, i natur ac amgylchiadau yr honiad ar ôl derbyn cyngor gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r ALI.

I gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr: Cyfeiriad e-bost Sara Evans saralloydevans@gmail.com

Yn syml iawn dylai'r asesiad yma:-

- sefydlu bod honiad wedi ei wneud,
- natur gyffredinol yr honiad,
- pryd a ble yr honnir i'r digwyddiad(au) fod wedi digwydd, pwy oedd yn gysylltiedig ac unrhyw unigolion eraill oedd yn bresennol.

Felly, pan wneir honiadau o'r fath, mae pedwar canlyniad posib i'r asesiad cychwynnol:

(i) Ble fo'r disgybl wedi dioddef, yn dioddef, neu yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, dylid gwneud atgyfeiriad ar unwaith dan weithdrefnau amddiffyn plant yr Awdurdod Lleol.

(ii) Ble fo'r plentyn wedi honni bod trosedd wedi digwydd, yna bydd hyn eto yn cael ei atgyfeirio o dan weithdrefnau amddiffyn plant yr ALI a gall yr heddlu gynnal ymchwiliad troseddol.

(iii) Gall yr honiad gynrychioli ymddygiad amhriodol neu ymarfer gwael gan aelod o staff (sydd ddim yn syrthio o dan y categorïau uchod) sydd angen ei ystyried dan weithdrefnau disgyblu lleol.

(iv) Ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw sail i'r honiad.

Os oes unrhyw amheuaeth am y materion hyn, yna gellir ceisio arweiniad / eglurhad gan Uwch Swyddog Diogelu yr Awdurdod Lleol perthnasol.

6 Achosion nad oes angen eu cyfeirio



Bydd achosion pan nad oes angen cyfeirio'r honiadau a wneir dan y gweithdrefnau amddiffyn plant y manylir arnynt uchod. Mae'r adegau hynny fel a ganlyn:

- a Ble fo'r honiad yn ymwneud â defnyddio grym rhesymol i atal disgybl, yn unol ag a.550A Deddf Addysg 1996 a Chylchlythyr 097/2013 Llywodraeth Cymru, bydd yn briodol i'r Pennaeth ymdrin â'r mater ar lefel ysgol. Er hynny, byddai angen ymdrin â honiad o ymosodiad y tu hwnt i rym rhesymol yn unol â'r gweithdrefnau amddiffyn plant lleol fel y manylwyd arnynt uchod.
- b Ble, yn dilyn yr ystyriaeth gychwynnol, ei bod yn hollol glir i'r Pennaeth (neu ble roedd yr honiad yn ymwneud â'r Pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr) ac Uwch Swyddog Diogelu yr Awdurdod Lleol perthnasol, **Delyth Lloyd Griffiths**, bod yr honiad yn amlwg yn ffug oherwydd y ffaith bod amgylchiadau uniongyrchol yr honiad yn dangos na fyddai'n bosib i'r honiad fod yn wir, yna gellir ymdrin â'r mater hwn eto ar lefel ysgol.
- c Gall yr honiad gynrychioli ymddygiad amhriodol neu ymarfer gwael gan aelod o staff sydd angen ei ystyried dan weithdrefnau disgyblu lleol.

7 Atgyfeirio a gweithdrefnau

Bydd unrhyw gamau gaiff eu cymryd gan awdurdodau statudol yn cael blaenoriaeth dros unrhyw bwyllgorau disgyblu staff/diswyddo y corff llywodraethu. Er hynny, mae gofyn i'r corff llywodraethu roi ei weithdrefnau disgyblu staff ar waith os yw ymddygiad aelod o staff yn syrthio o fewn y disgrifiad yn (iii) uchod, neu y penderfynir, ar ôl i'r asiantaethau statudol ystyried yr achos, na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd gan yr asiantaethau a bod y mater yn cael ei atgyfeirio yn ei ôl i'r ysgol.

Yn ôl adran 3.4 dogfen ganllaw 002/2020 (Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol), pan fo'r gwrandawriad disgyblu a diswyddo yn ymwneud â honiad bod athro neu aelod o staff a gyflogir o dan contract cyflogaeth yn yr ysgol wedi cam-drin disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol, mae'n rhaid i'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apeliadau gynnwys o leiaf dau lywodraethwr ac aelod annibynnol nad yw'n llywodraethwr â hawliau pleidleisio.

Yn ôl adran 8.26, ni chaiff yr aelod annibynnol fod yn:

- llywodraethwr ar gyfer yr ysgol dan sylw
- rhiant/gofalwr disgybl presennol neu gyn-ddisgybl o'r ysgol dan sylw
- aelod presennol neu gyn-aelod o staff o'r ysgol lle mae'r unigolyn y cynhelir y gwrandawriad disgyblu yn ei gylch wedi'i gyflogi
- un o aelodau neu gyflogeion yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol
- un o ymddiriedolwyr yr ysgol
- aelod o'r awdurdod esgobaethol priodol ar gyfer yr ysgol
- unigolyn sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig i gorff llywodraethu'r ysgol.

Mae adran 8.27 yn nodi - fel arfer, bydd yr aelod nad yw'n llywodraethwr yn cael ei benodi yn lle un o'r tri llywodraethwr a ddewiswyd i eistedd ar y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apeliadau disgyblu a diswyddo staff. Mae hyn yn sicrhau odrif o ran nifer y llywodraethwyr ac yn osgoi'r angen i gadeirydd y pwyllgor fwrw ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni all yr aelod nad yw'n llywodraethwr gadeirio'r naill bwyllgor na'r llall. Mae angen aelod annibynnol, gwahanol nad yw'n llywodraethwr ar gyfer y ddau bwyllgor.

Fel arfer ni ddylai Cadeirydd y Llywodraethwyr eistedd ar y pwyllgor disgyblu na'r pwyllgor apeliadau disgyblu fel ei fod ef/ei bod hi yn gallu cynghori'r Pennaeth mewn achosion sy'n ymwneud â staff eraill ac yn gallu gweithredu mewn achosion sy'n ymwneud â'r Pennaeth. Ni chaiff y Pennaeth fod yn aelod o'r naill bwyllgor na'r llall. Dylid enwi llywodraethwr cysylltiol ar y pwyllgor disgyblu er mwyn monitro cynnydd yr ymchwiliad statudol.



Mae'r camau gweithredu a gymerir gan yr awdurdodau statudol yn dilyn atgyfeirio yn cynnwys yr angen i gynnal cyfarfod strategol rhwng y partion dan sylw. Yn y cyfarfod hwn fe wneir penderfyniad ynghylch p'un i gynnal ymchwiliad swyddogol ai peidio, a chasgliad hwnnw fydd un ai:-

- (i) bod y meini prawf ar gyfer 'prawf trothwy troseddol' wedi eu cwrdd a bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal un ai fel menter Adran 47 'ar y cyd' gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu neu ymchwiliad 'sengl' gan y naill asiantaeth neu'r llall neu;
- (ii) nad yw'r dystiolaeth yn glynu at y 'meini prawf trothwy troseddol' uchod ond bod yr honiad yn parhau i gael ei ystyried ar lefel ysgol neu;
- (iii) nad oes unrhyw achos i'w ateb.

Rhaid nodi yma na fyddai'n briodol i banel y corff llywodraethu i ddod i'r casgliad oherwydd nad oes erlyniad neu bod erlyniad yn methu yn dilyn ymchwiliad statudol h.y. (i) a (ii) uchod, nad oes angen ystyried camau disgyblu. Mae angen i gyrff llywodraethu gydnabod bod:

- Angen safon uwch o brawf ar gyfer camau troseddol nag ar gyfer camau disgyblu;
- Gall camau disgyblu gynnwys materion ehangach na'r rhai gaiff eu hystyried gan yr awdurdodau statudol;
- Y dyletswydd gofal cyffredinol sydd gan y corff llywodraethu tuag at ddisgyblion ac eraill.

Os penderfynir, yn dilyn honiad amddiffyn plant, y dylai camau disgyblu staff ddigwydd, dylai cadeirydd y llywodraethwyr/pwyllgor disgyblu benodi ymchwilydd annibynnol ar unwaith i fynd ati i gwblhau ymchwiliad cyn dechrau gwrandawriad disgyblu y corff llywodraethu.

Rhaid penodi ymchwilydd annibynnol ym mhob achos ble fo honiadau yn ymwneud â materion **amddiffyn plant** yn cael eu gwneud yn erbyn staff yr ysgol ac sy'n gallu arwain at gamau disgyblu dan Reoliadau 2006.

Yr unig eithriad i'r gofyniad hwn yw pan fo'r Pennaeth / cadeirydd y llywodraethwyr yn dod i'r casgliad bod yr honiad yn amlwg yn ffug oherwydd bod amgylchiadau'r honiad yn dangos y tu hwnt i bob amheuaeth nad oes modd iddo fod yn wir.

I helpu gyrff llywodraethu i gwrdd â'r gofynion i benodi ymchwilydd annibynnol fel sydd yn y Rheoliadau (Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru)), mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol (I.I.S) y gall gyrff llywodraethu eu defnyddio yn rhad ac am ddim. Fel arall, mae modd i'r corff llywodraethu benodi eu hymchwilydd eu hunain, bydd cost hyn yn cael ei gwrdd o gyllideb ddirprwyedig y corff llywodraethu. Fodd bynnag, ni all ymchwilydd fod yn lywodraethwr, rhiant, cyn-ddisgybl neu aelod o staff yn yr ysgol dan sylw neu unigolyn a gyflogir gan yr ALI sy'n cynnal yr ysgol.

Bydd yr heddlu yn sicrhau cytundeb tystion bod unrhyw dystiolaeth a dderbyniwyd i ddibenion erlyn yn gallu cael ei defnyddio mewn unrhyw ystyriaeth o gamau disgyblu a bydd yr ymchwilydd angen adolygu, ac fel bo angen ategu, y dystiolaeth gan yr awdurdodau statudol yng ngoleuni gofyniad disgyblu y corff llywodraethu.

Os yw'r unigolyn sy'n gwneud yr honiad amddiffyn plant yn ei dynnu yn ôl am unrhyw reswm, ac ar unrhyw adeg yn y broses, nid oes angen penodi ymchwilydd annibynnol. Dylid nodi yma os mai disgybl sydd yn gwneud honiad, yna'r disgybl a ddylai ei dynnu yn ôl. Ni ddylai'r corff llywodraethu dderbyn honiad gaiff ei dynnu yn ôl gan unigolyn arall h.y. rhiant ar ran y disgybl, oni cheir cytundeb ysgrifenedig neu lafar y plentyn dan sylw.

Felly, rôl y Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol yw:

- Ystyried yr holl dystiolaeth, yn cynnwys yr hyn a ddarparwyd gan yr awdurdodau statudol, gan edrych ar y ffeithiau sy'n ymwneud â'r honiad. Gall hynny olygu cyfweld tystion.



- Llunio adroddiad gyda chanfyddiadau a chasgliadau i gadeirydd y pwyllgor disgyblu/diswyddo staff.
- Cyflwyno'r adroddiad yn ddiuedd yn y gwrandawriad disgyblu ac mewn unrhyw wrandawriad apêl i alluogi aelodau i wneud penderfyniad ar y cyd ac ystyried a chydymffurfio gyda gofynion GDPR.

Unwaith fo adroddiad wedi ei dderbyn bydd angen i'r pwyllgor disgyblu/diswyddo staff, yn cynnwys yr aelod nad yw'n lywodraethwr, ystyried y canfyddiadau a phenderfynu:

- A oes dystiolaeth i gredu bod yr honiad amddiffyn plant sydd â sail gref ac yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol a bod angen gwrandawriad disgyblu/diswyddo staff ffurfiol;
- A yw'r dystiolaeth yn cefnogi penderfyniad bod yr honiad gyfystyr â chamymddwyn llai difrifol y gall y Pennaeth ddelio ag ef; neu
- Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad amddiffyn plant ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach yn erbyn aelod o staff.

Mae angen i gyrff llywodraethu gofio nad yw cael adroddiad ymchwiliad ynddo'i hun yn golygu bod yn rhaid cynnal gwrandawriad disgyblu.

Os yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r ffaith bod sail gref i'r honiad yna mae gofyn i'r cadeirydd roi o leiaf deg diwrnod o rybudd i'r aelod o staff dan sylw o'r bwriad i gynnal gwrandawriad disgyblu a dylid glynu at y gweithdrefnau disgwyliedig o ran amserlen, cynrychiolaeth a strwythur y cyfarfod a gynhelir.

Honiadau di-sail

Ble, fo'r honiad yn amlwg yn ffug, dylai'r Pennaeth (neu, ble fo'r honiad yn ymwneud â'r Pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr) mewn ymgynghoriad â swyddog cysylltiol yr ALL:-

(a) Rhoi gwybod yn llafar ac yn ysgrifenedig i'r aelod o staff am yr honiad a'r ffaith nad oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd o dan y camau disgyblu neu'r gweithdrefnau amddiffyn plant. Gall yr aelod o staff ddod â chynrychiolydd Undeb Llafur neu gyfaill gydag ef/hi;

(b) Ystyried os yw cwnsela a/neu gyngor proffesiynol anffurfiol i'r aelod o staff yn briodol a ffurf posib hyn;

(c) Rhoi gwybod yn ysgrifenedig i rieni'r plentyn neu'r plant am yr honiad a'r canlyniad;

(d) Rhoi ystyriaeth i gwnsela a chymorth priodol i'r plentyn neu'r plant a wnaeth yr honiad(au) a, ble fo'n briodol, eu rhieni; yn enwedig, ystyriwch pa gamau dilynol (yn cynnwys camau disgyblu) y dylid eu cymryd o ran yr unigolyn neu'r plentyn sydd wedi gwneud honiad a ddangosir i fod yn ffug neu'n ddi-sail, yn enwedig os y dangosir iddo gael ei wneud yn faleisus;

(e) Ble fo'r honiad wedi ei wneud gan unigolyn ac eithrio'r plentyn sy'n ddiodefwr honedig ei hun, dylid ystyried rhoi gwybod i'r rhieni a'r plentyn am ffaith yr honiad di-sail a darparu cymorth fel bo angen.

8 Gwahardd Dros Dro

Dylid gwahardd aelod o staff dros dro wrth ddisgwyl am y camau disgyblu gan ddilyn y gweithdrefnau a dderbyniwyd, a dylid ond ystyried hyn ble:

- Mae'n ymddangos bod angen gwahardd yr aelod o staff o'r ysgol er mwyn amddiffyn disgyblion, aelodau eraill o staff neu eiddo, neu er mwyn i'r ysgol allu gweithredu'n drefnus; neu
- Byddai presenoldeb parhaus yr aelod o staff yn y gwaith yn atal ymchwiliad priodol rhag cael ei gynnal i'r honiadau a wnaed yn erbyn yr aelod hwnnw o staff; a
- Nid oes unrhyw ddewis arall addas ar gael, e.e. cyfyngu ar ddyletswyddau yr aelod o staff.



Dylai gwaharddiad dros dro gael ei weld fel cam niwtral ac nid fel cosb disgyblu ac o'r herwydd dylai'r ysgol sicrhau bod camau ar waithi gefnogi'r unigolyn yn ystod y profiad trawmatig yma.

Pan fo gwahardd dros dro yn cael ei ystyried, dylid trefnu cyfweiliad. Fel arfer, dylid cynnal y cyfweiliad y tu allan i amser cyswllt disgyblion. Dylai'r Pennaeth (neu, mewn achosion ble fo'r honiad yn erbyn y Pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr) ymgynghori â swyddog cysylltiol yr All a cheisio cyngoor ganddo.

Ble fo'r heddlu yn gysylltiedig gydag ymchwiliad troseddol, ni ddylid cynnal unrhyw gyfweiliad a drefnwyd, ble ystyrir gwahardd dros dro, heb ymgynghori ymlaen llaw gyda'r swyddog sy'n gyfrifol am yr achos. Ble nad yw'r heddlu yn gysylltiedig, dylid trefnu cyfweiliad yn unol â'r gweithdrefnau isod:

- Wrth gael ei alw i gyfweiliad ble fo gwaharddiad dros dro yn ganlyniad posib, dylid hysbysu'r aelod o staff i geisio cyngor a chymorth gan ei undeb lafur ef/hi. Gall unigolyn sydd ddim yn aelod o undeb lafur gael cymorth gan gydweithiwr. Dylid cynnig cyfle iddo ef/iddi hi, os oes rhywun gyda hwy, i gael cyfarfod byr gyda'r cynrychiolydd neu gydweithiwr cyn y cyfweiliad.
- Dylid rhoi gwybod i'r aelod o staff ar ddechrau'r cyfweiliad bod honiad wedi ei wneud ac y gallai gael ei wahardd dros dro ar derfyn y cyfweiliad. Er hynny, dylid ei gwneud yn glir nad yw'r cyfweiliad yn wrandawriad disgyblu ffurfiol ond mai ei bwrpas yw codi mater difrifol a all arwain at waharddiad dros dro ac ymchwiliad pellach.
- Dylai'r aelod o staff gael cymaint o wybodaeth â phosib, yn cynnwys y rhesymau am unrhyw waharddiad arfaethedig, i'r graddau lle nad yw hynny'n ymyrryd gyda'r ymchwiliad i'r honiad. Nid yw'r cyfarfod hwn yn mynd ati i archwilio'r dystiolaeth ond yn hytrach mae'n gyfle i'r aelod o staff gyflwyno sylwadau ynghylch waharddiad dros dro posib. Dylai'r aelod o staff gael cyfle i gyflwyno sylwadau wedi i'r wybodaeth a'r rhesymau ar gyfer unrhyw waharddiad dros dro arfaethedig gael eu cyflwyno. Dylid cynnig gohiriad byr i'r aelod o staff cyn iddo/iddi ymateb.
- Os bydd y Pennaeth / cadeirydd y llywodraethwyr yn ystyried, o ganlyniad i'r cyfweiliad, bod angen gwahardd dros dro a mynd ati i gynnal ymchwiliad llawn o'r honiad, dylid hysbysu'r unigolyn ei fod ef neu hi wedi ei wahardd dros dro o'i ddyletswydd. Dylid anfon cadarnhad ysgrifenedig am y gwaharddiad dros dro cyn pen un diwrnod gwaith, gan roi rhesymau dros y gwaharddiad dros dro.

9 ADRAN C - Y CAMAU I'W CYMRYD GAN STAFF YR YSGOL PAN MAENT YN BRYDERUS AM SEFYLLFAOEDD SYDD HEB EU CYNNWYS YN ADRANNAU A & B.

Gall adegau godi pan fo staff yn bryderus nad yw'r gweithdrefnau arferol yn gymwys neu ddim yn cael eu dilyn. Mewn amgylchiadau o'r fath:

- a Dylid rhoi gwybod yn ddi-oed i'r Prif Swyddog perthnasol yn yr Awdurdod Lleol.
- b Fel arall, dylid gofyn am gyfweiliad 'cyfrinachol' gyda'r Prif Swyddog priodol, Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg neu Bennaeth Cynhwysiad Addysg.



ATODIAD A

RÔL Y CYDLINYDD AMDDIFFYN PLANT / ATHRO DYNODEDIG / AELOD STAFF DYNODEDIG

Mae gan ysgolion rôl werthfawr i'w chwarae yng nghyd-destun Amddiffyn Plant, yn enwedig yn ystod y cam adnabod ac atgyfeirio.

Mae “Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru 2019”, yn nodi'n glir y dylai pob ysgol a choleg gael aelod o staff dynodedig sy'n gyfrifol am gydlynu materion Amddiffyn Plant ac yn benodol gyd-gysylltu gydag asiantaethau eraill. Mae gan yr unigolyn yma hefyd rôl allweddol i fonitro gweithrediad cynlluniau, ar ôl cofrestrriad Amddiffyn Plant, yng nghyd-destun eu hysgol neu eu cyfleuster.

Mae'r manylion isod wedi'u nodi er mwyn cynorthwyo ysgolion a chyfleusterau i ddiffinio'n fwy eglur y cyfrifoldebau a ddisgwylir gan y person dynodedig.. Ni fwriadwyd i'r wybodaeth fod yn derfynol a dylid ei hystyried yng nghyd-destun ehangach Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Phrotocolau Lleol y Byrddau Diogelu Lleol.

Ystyriaeth Gyffredinol

Mae Amddiffyn Plant yn fater difrifol, yn enwedig i'r rhai a all fod yn ddioddefwyr, dioddefwyr posib neu yn gysylltiedig â rhoi cefnogaeth. Yn aml, nid yw sefyllfaoedd yn 'ddu a gwyn' ac yn aml mae tensiynau yn bodoli rhwng asiantaethau.

Mae'n hanfodol felly bod gan y person a enwebwyd neu a benodwyd;

- a Ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd Amddiffyn Plant a rôl yr ysgol yn y broses yma.
- b Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gydag asiantaethau eraill ac i werthfawrogi'r holl safbwyntiau perthnasol.
- c Y gallu i uniaethu'n dda gyda disgyblion, rhieni a chydweithwyr er mwyn ennyn eu hyder.
- d Awdurdod digonol neu gydnabyddiaeth yn yr ysgol i weithredu ar ran y sefydliad ac mewn rhai achosion, arwain atnewid os oes angen.
- e Parodrwyd i ddatblygu ymwybyddiaeth am Amddiffyn Plant, yn enwedig drwy hyfforddiant a chywain gwybodaeth sydd ar gael mewn gweithdrefnau, cylchlythyrau a chanllawiau presennol ac yn y dyfodol.

Yn benodol

Bydd rôl y cydlynnydd/person dynodedig yn cynnwys:

- 1 Sicrhau bod yr holl aelodau o staff yn ymwybodol o'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant priodol a phwy yw'r athro dynodedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff newydd.
- 2 Sicrhau bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.
- 3 Cyd-gysylltu gydag asiantaethau eraill am achosion o gamdriniaeth honedig a hyrwyddo cydweithio gan gynnwys presenoldeb mewn Cynadleddau Achos.



- 4 Sierhau bod y swyddog dynodedig a enwir ar gyfer Amddiffyn Plant mewn Ysgolion yn ymwybodol o unrhyw ddiffyg mewn cyfathrebu neu broblemau gyda gweithrediad gweithdrefnau lleol.
- 5 Cynnal cofnodion priodol o ran achosion sy'n peri pryder a'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd.
- 6 Sierhau bod monitro parhaus yn digwydd i ddisgyblion sydd wedi bod yn destun pryderon cam-drin plant a/neu a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac a wnaed yn destun cynllun sy'n ymwneud â'u hysgol.



ATODIAD B: Mathau o Gam-drin:

Corfforol:

Taro, slapio, gor neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth ddiangen, neu sancsiynau amhriodol, ysgwyd, taflu, gwenwyno neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol i blentyn mewn unrhyw ffordd arall. Gall niwed corfforol ddigwydd hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch, neu'n achosi salwch yn fwriadol, i blentyn yn ei ofal.

Emosiynol:

Trin plentyn yn emosiynol wael yn barhaus, gan achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol y plentyn, bygythiadau o niwed neu gefnu arnynt, rheolaeth orfodol, codi cywilydd, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, tystio unigolion eraill yn cael eu cam-drin.

Rhywiol:

Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, a gweithredoedd treiddio neu weithredoedd heb dreiddio; gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant mewn edrych ar ddelweddau rhywiol, neu wrth gynhyrchu, deunydd pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

Esgeulustod:

Esgeulustod parhaus neu ddifrifol o blentyn, neu fethiant i'w amddiffyn rhag bod yn agored i unrhyw fath o berygl yn cynnwys oerfel, newyn neu fethiant eithafol i ymgymryd ag agweddau pwysig o ofal, sydd o ganlyniad yn golygu amhariad sylweddol o ran iechyd neu ddatblygiad y plentyn, methiant i ddiwallu anghenion corfforol sylfaenol, emosiynol neu seicolegol plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifoli iechyd neu ddatblygiad y plentyn.

Ariannol:

Peidio â diwallu anghenion gofal a chefnogaeth plentyn sy'n cael eu darparu drwy daliadau uniongyrchol; neu gwynion bod eiddo personol ar goll.

Gall risg gan niwed arall gwirioneddol neu niwed posib i blentyn neu berson ifanc hefyd ddeillio o:

Cam-fanteisio troseddol megis llinellau cyffuriau (CCE)

Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant

Radicaleiddio

Llurgunio organau rhywiol merched (FGM)

Caethwasiaeth fodern



ATODIAD C

Datgeliad / Honiad o Gam-drin

Os yw person ifanc yn datgelu ei fod ef/hi wedi cael neu yn cael ei gam-drin, rhaid trosglwyddo'r wybodaeth yma. Os bydd person ifanc yn datgelu camdriniaeth, dylai'r aelod o staff weithredu fel a ganlyn:

DYLECH WNEUD HYN	NI DDYLECH WNEUD HYN
Gwrando ar y plentyn / person ifanc yn hytrach na'i holi ef / hi yn uniongyrchol.	Torri ar draws plentyn sy'n dwyn i gof ac yn adrodd am ddigwyddiadau arwyddocaol.
Annog y plentyn / person ifanc i ganiatáu i berson arall fod yn bresennol.	Dangos sioc neu anesmwythyd.
Rhoi sicrwydd i'r person ifanc nad oes bai arnynt a'u bod yn gwneud y peth iawn yn rhoi gwybod amdano.	Sicrhau cyfrinachedd.
Rhoi gwybod i'r plentyn / person ifanc y bydd yn rhaid i chi drosglwyddo'r wybodaeth.	Rhoi geiriau yng ngheg y plentyn / person ifanc.
Gwneud gofnod ysgrifenedig o'r drafodaeth cyn gynted â phosib ar ôl i'r plentyn ddatgelu hyn i chi, byddwch yn ofalus i gofnodi'r amser, lleoliad, personel / staff eraill, yn ogystal â'r hyn a ddywedwyd.	Ofni gofyn am gefnogaeth i chi eich hun gan eich rheolwr llinell. Fodd bynnag, oherwydd y lefel uchel o gyfrinachedd sydd yn rhaid ei gadw mewn amddiffyn plant, nid yw'n briodol trafod achosion unigol gyda ffrindiau personol neu gyfeillion, fydd efallai yn gallu adnabod y teulu dan sylw.
Bod yn glir am eich sefyllfa chi, rydych yn gweithio i Adran sydd â chyfrifoldeb i amddiffyn plant a phobl ifanc.	Torri ar draws y plentyn / person ifanc.
Cadw unrhyw ddarluniau, lluniau ac ati y gall y plentyn/person ifanc eu gwneud i ddangos beth a ddigwyddodd iddo ef neu hi.	Gwneud y plentyn / person ifanc yn agored i archwiliad mawr gan staff i wirio unrhyw anafiadau.
Peidio â chynhyrfu a cheisio rhoi sicrwydd i'r plentyn/person ifanc.	Holi'r plentyn, cofiwch rhaid i'r dasg yma gael ei gwneud gan weithwyr proffesiynol cymwys.



ATODIAD D

Gwybodaeth ychwanegol o weithdrefnau newydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019:

- Yn ystod cyfnod yr asesiad cychwynnol, os yw'r Tîm Diogelu yn sefydlu nad yw plentyn oed ysgol yn mynychu'r ysgol, dylid rhoi gwybod i'r Adran Addysg/Gwasanaethau Plant, gan sicrhau yn y cyfamser, bod y plentyn yn ddarostyngedig i ofal dyddiol digonol a threfniadau goruchwylio.
- Os oes gan athro neu aelod arall o staff reswm i greu bod plentyn mewn perygl o, neu yn destun salwch ffug neu sydd wedi ei achosi gan eraill, dylid rhoi gwybod ar unwaith i'r athro gyda chyfrifoldeb dynodedig am amddiffyn plant. Fel gyda phob math o niwed a amheuir, bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn gymwys a bydd yr athro dynodedig yn cymryd cyfrifoldeb am wneud atgyfeiriad priodol i dîm Diogelu'r ALI. Dylid cadw'r holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r pryder yn ddiogel gan y bydd ei hangen efallai i fod yn sail i wneud penderfyniad neu gyfrannu at unrhyw ymchwiliad dilynol.
- Ni ddylai athrawon a staff eraill yn yr ysgol gynnal eu hymchwiliadau eu hunain na thrafod y mater gyda rhiant / gofalwr y plentyn.

ATODIAD E: Ffurflen Atgyfeirio Gwasanaethau Cymdeithasol (yn agor fel dogfen pdf)



Referral-Form.pdf

ATODIAD F: Cyswllt Corfforol Diogel gyda Disgyblion

Gellir rhannu Cyswllt Corfforol gyda disgyblion i'r 4 maes isod:

- 1 Cyswllt cymdeithasol (ysgwyd llaw, canllaw o ran rhoi cyfarwyddyd i ddisgybl, cysuro, yn cynnwys gweinyddu Cymorth Cyntaf)
- 2 Cyswllt ar sail y Cwricwlwm
- 3 Cyswllt/Cefnogaeth i Ddisgyblion Anabl
- 4 Atal Disgyblion yn Gorfforol

O Ddogfen Ganllaw 097/2013 (Adran 1.4): Ni ddylai ysgolion fyth geisio rhwystro gallu aelodau o staff i ddefnyddio grym drwy fabwysiadu polisi 'dim cyswllt'. Mae'r pŵer i ddefnyddio grym yn helpu i sicrhau diogelwch disgyblion a'r ysgol a'r perygl sy'n gysylltiedig â pholisi dim cyswllt yw y gallai olygu bod aelod o staff yn torri eu dyletswydd gofal tuag at ddisgybl, neu'n eu hatal rhag gweithredu mewn ffordd sydd ei hangen i atal disgybl rhag achosi anafiadau i eraill.

Mae yna adegau ble y gall fod yn hollol briodol a chywir i staff gael cyswllt corfforol gyda phlant. Fodd bynnag, mae'n hanfodol eu bod ond yn gwneud hyn mewn ffyrdd sydd yn briodol i'w rôl broffesiynol.

Gall cyffwrdd fod yn rhywbeth digroeso iawn i rai disgyblion. Er enghraifft, gall rhai disgyblion fod yn arbennig o sensitif i gyswllt corfforol oherwydd eu cefndir diwylliannol



neu oherwydd iddynt gael eu cam-drin. Mae'n bwysig bod staff a ddaw efallai i gysylltiad gyda'r disgyblion hyn neu grwpiau o ddisgyblion efo'r wybodaeth berthnasol a bod gan yr ysgol system i'w hysbysu. Yn ychwanegol, bydd angen i'r ysgol ddatblygu arfer cyffredin clir tuag at grwpiau penodol o ddisgyblion a digwyddiadau.

Nid yw pob plentyn yn teimlo yn gyfforddus am unrhyw ffurf o gyswllt corfforol; dylid cydnabod hyn a ble fo'n bosib, dylai oedolion geisio caniatâd y disgybl cyn dechrau cyswllt a bod yn sensitif i unrhyw arwyddion eu bod efallai yn anghyfforddus neu yn teimlo embaras. Dylai staff wrando, gwyltio a nodi ymateb y plentyn neu deimladau a chyn belled â phosib, ddefnyddio lefel cyswllt neu ffurf o gyfathrebu sy'n dderbyniol i'r disgybl. Gall rhai disgyblion fod yn arbennig o sensitif, rhai o gefndir diwylliannol gwahanol neu ddisgyblion sydd wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod.

Dalier sylw, nid yw hi'n bosib fod yn benodol am briodoldeb pob cyswllt corfforol, gan y gall gweithredu sy'n briodol gydag un disgybl, mewn un set o amgylchiadau, fod yn amhriodol mewn un arall, neu gyda phlentyn gwahanol.

- 1 Cyswllt Cymdeithasol (ysgwyd llaw, canllaw o ran rhoi cyfarwyddyd i ddisgybl, cysuro, ac ati, yn cynnwys gweinyddu Cymorth Cyntaf)

Gall cyffwrdd fod yn briodol pan fo disgybl yn cael ei longyfarch neu ei gannmol, neu os yw disgybl yn ofidus ac angen cysur. Bydd athrawon yn defnyddio eu barn broffesiynol eu hunain pan fyddant yn teimlo fod disgybl angen y math yma o gymorth. Gall peth cyswllt corfforol fod yn angenrheidiol os yw aelodau o staff yn gorfod rhoi cymorth cyntaf.

O safbwynt llongyfarch neu gannmol disgyblion, gall ysgwyd llaw a chyswllt cymdeithasol arferol derbyniol fod yn hollol briodol. Fel y disgrifiwyd uchod, dylai staff fod yn ymwybodol o gefndir diwylliannol a chymdeithasol disgyblion gan ddefnyddio lefel cyswllt sydd yn briodol i'r achlysur, yn dderbyniol i'r disgybl a, ble fo'n bosib, gwneud disgyblion yn ymwybodol bod yr achlysur yn gwarantu cyswllt o'r fath.

Pan fo disgybl yn ofidus, dylai trefn gyffredin fod yn ei lle pan fo staff a disgyblion o rywiau gwahanol. Mae cyswllt corfforol gyda disgyblion yn dod yn fwy-fwy agored i gwestiynau fel mae disgyblion yn cyrraedd ac yn mynd drwy'r glasoed, a dylai staff hefyd ystyried y gall hyd yn oed cyswllt diniwed a fwriadwyd yn dda weithiau gael ei gamddechongli.

Ble fo disgybl yn arbennig o ofidus neu pan fo disgybl angen cymorth cyntaf, ni ddylai staff fyth roi eu hunain mewn sefyllfa ble y gallai eu gweithredoedd gael eu camddeall. Dylai staff fod yn ymwybodol y gall hyd yn oed cyswllt corfforol a fwriadwyd yn dda gael ei gamddechongli gan ddisgybl, sylwedydd neu unrhyw unigolyn sy'n clywed am y weithred o'r fath. Ni ddylai staff fyth gyffwrdd disgybl mewn ffordd y gellid ei ystyried yn anwedus ac mae'n rhaid iddynt bob amser fod yn barod i egluro unrhyw weithredu a derbyn y gall yr holl gyswllt corfforol fod yn agored i'w graffu. Mae'n ddoeth canfod os yw'r disgybl yn gyfforddus gyda chyswllt o'r fath, os oes angen drwy ofyn yn uniongyrchol iddynt.

Dylai'r staff hefyd sicrhau bod y ffordd maent yn cynnig cysur i ddisgybl gofidus yn briodol i oed y disgybl gan roi gwybod i gydweithiwr pryd a sut y bu iddynt gynnig cysur i ddisgybl gofidus. Dylai'r staff bob amser ystyried dulliau amgen i gyswllt corfforol.



2 Cyswllt sy'n seiliedig ar y Cwricwlwm

Gall peth cyswllt corfforol fod yn angenrheidiol i arddangos ymarferion neu dechnegau yn ystod gwersi addysg gorfforol, hyfforddiant chwaraeon neu grefftau, dylunio a thechnoleg. Os oes cyswllt o'r fath yn debygol o ddigwydd ar adegau gwahanol o'r cwrs, mae'n ddoeth rhoi gwybod ymlaen llaw i'r disgyblion am hyn i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth pan fo cyswllt yn digwydd.

Mewn rhai pynciau ymarferol, AG, Drama a Cherdd, efallai y bydd angen i'r staff gychwyn cyswllt corfforol gyda phlant, er enghraifft, i ddangos technegau wrth ddefnyddio darn o offer, addasu osgo, neu helpu'r plentyn fel eu bod yn gallu perfformio gweithgaredd yn ddiogel neu i atal anaf.

Dylai cyswllt corfforol ond ddigwydd pan fod hynny yn angenrheidiol mewn perthynas â gweithgaredd penodol. Dylai ddigwydd mewn amgylchedd diogel ac agored, h.y. un ble fo'n hawdd i eraill ei weld ac ni ddylai barhau am fwy o amser na'r hyn sy'n angenrheidiol. Dylai bod graddau'r cyswllt yn glir a'i fod yn cael ei ymgymryd gyda chaniatâd y disgybl. Dylai'r cyswllt fod yn berthnasol i oed y disgybl a dylai oedolion barhau yn sensitif i unrhyw anghysur a fynegydd yn llafar neu'n ddieiriau gan y disgybl.

3 Cyswllt/Cefnogaeth i Ddisgyblion Anabl (cefnogi disgyblion gydag anableddau / problemau symudedd)

Efallai y bydd plant ifanc a rhai gyda ADY angen staff i ddarparu promptiau corfforol neu gymorth. Gall disgyblion gydag anabledd fod angen mwy o gyswllt corfforol i helpu gyda'u dysgu dyddiol ac i gynorthwyo gyda bywyd bob dydd yn yr ysgol. Dylid deall y trefniadau a bod yr holl bartïon dan sylw yn cytuno iddynt, bod cyfiawnhad iddynt o ran anghenion y disgyblion a'u bod yn cael eu defnyddio yn gyson. Dylai ysgolion geisio caniatâd rhieni/gofalwyr pan nad yw disgybl yn gallu cydsynio e.e. oherwydd anabledd.

4 Atal Disgyblion yn Gorfforol

Mae Atal Disgyblion yn cael ei drin fel polisi ar wahân.



ATODIAD G: Trefn Weithredu Safonol /'Beth i'w wneud os ..'

Mae disgwyl i'r holl staff roi'r drefn hon ar waith ac mae'n bosib y bydd y Pennaeth yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi'r camau gweithredu maent wedi eu cymryd yn unol â'r drefn.

Clare Jones, Person Diogelu Dynodedig sy'n gyfrifol am oruchwylio'r defnydd o'r drefn hon a monitro ei heffeithiolrwydd.

Mae'n seiliedig ar y weithdrefn a ganlyn:

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (rhyddhawyd ar ffurf ap 2019)

Mathau o gam-drin:

Corfforol:

Taro, slapio, gor neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth ddiangen, neu sancsiynau amhriodol, ysgwyd, taflu, gwenwyno neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol i blentyn mewn unrhyw ffordd arall. Gall niwed corfforol ddigwydd hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch, neu'n achosi salwch yn fwriadol, i blentyn yn ei ofal.

Emosiynol, yn cynnwys seicolegol:

Cam-drin emosiynol parhaus yw trin plentyn yn emosiynol wael gan achosi effeithiau andwyol dwys a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol y plentyn, bygythiadau o niwed neu gefnu arnynt, rheolaeth orfodol, codi cywilydd, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, gweld unigolion eraill yn cael eu cam-drin.

Rhywiol:

Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, a gweithredoedd treiddio neu weithredoedd heb dreiddio; gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant mewn edrych ar ddelweddau rhywiol, neu wrth gynhyrchu, deunydd pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

Esgeulustod:

Esgeulustod parhaus neu ddifrifol o blentyn, neu fethiant i'w amddiffyn rhag bod yn agored i unrhyw fath o berygl yn cynnwys oerfel, newyn neu fethiant eithafol i ymgymryd ag agweddau pwysig o ofal, sydd o ganlyniad yn golygu amhariad arwyddocaol o ran iechyd neu ddatblygiad y plentyn, methiant i ddiwallu anghenion corfforol sylfaenol, emosiynol neu seicolegol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn.

Ariannol:

Peidio â diwallu anghenion gofâl a chefnogaeth plentyn sy'n cael eu darparu drwy daliadau uniongyrchol; neu gwynion bod eiddo personol ar goll.



Wrth wrando ar bryderon plentyn:

Rhaid i'r staff:

- Gadw'r plentyn yn ddiogel; mae diogelu o'r pwysigrwydd pennaf;
- Dangos i'r plentyn eich bod wedi clywed yr hyn mae'n ei ddweud, a'ch bod yn cymryd eu honiadau o ddifrif;
- Annog y plentyn i siarad drwy ofyn cwestiynau 'arferol' (beth sydd wedi digwydd, pryd wnaeth hyn ddigwydd, ble wnaeth hyn ddigwydd ac ati). ond peidiwch â'u harwain na gofyn cwestiynau arweiniol;
 - Peidiwch â thorri ar draws pan fo plentyn yn dwyn digwyddiadau arwyddocaol i gof.
 - Peidiwch â gwneud i'r plentyn ailadrodd ei hanes;
- Esboniwch pa gamau y bydd rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n briodol i oed a dealltwriaeth y plentyn, rhowch wybod iddynt y byddwch yn cyfeirio'r mater i'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) / Swyddog Amddiffyn Plan neu'r Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant;
- Peidiwch ag addo cadw yr hyn rydych wedi'i glywed yn gyfrinach gan fod gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r bobl sydd angen cael gwybod. Nid yw adrodd am bryderon yn bradychu ffydd;
- Cofnodwch bopeth a ddywedwyd wrthyh cyn gynted ag y medrwch, gan ddefnyddio'r union eiriau os yn bosib;
- Adroddwch am eich pryderon i'r aelod o staff gyda chyfrifoldeb dynodedig am amddiffyn plant cyn gynted â phosib ac o fewn 24 awr;
- Peidiwch â holi/herio'r camdriniwr honedig;
- Peidiwch â phoeni eich bod o bosib wedi gwneud camgymeriad. Byddwch bob amser yn cael eich cymryd o ddifrif. Mae'n well bod wedi ei drafod gyda rhywun sydd â'r profiad a chyfrifoldeb i wneud asesiad.

Wrth adrodd am ddigwyddiadau i'r Swyddog Amddiffyn Plant / PDD:

Dylai staff:

- Roi cofnod ar My Concern. Mewn achos ble fo bygythiad uniongyrchol i iechyd a/neu ddiogelwch y plentyn, dilynwch y cofnod drwy gysylltu yn uniongyrchol gyda'r PDD, Clare Jones /DSAP, Iola Parry. Dylai'r log gynnwys yr isod:
 - Enw llawn a dyddiad geni (neu oed) y plentyn;
 - Dyddiad heddiw, eich enw a'ch swydd.
 - Natur y pryderon;
 - Sut a pham fod y pryderon hynny wedi codi;
 - Unrhyw wybodaeth sy'n effeithio ar ddiogelwch y staff;
 - Barn, ble fo hynny yn berthnasol.

Pan fo atgyfeiriad amddiffyn plant wedi ei dderbyn:

Rhaid i'r PDD / Swyddog Amddiffyn Plant:

- Ystyried yr holl wybodaeth a phenderfynu:
 - A oes angen gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
 - Ceisio caniatâd gan y rhieni cyn trafod cyfeiriad am eu plentyn gydag asiantaethau eraill.



- Yr eithriadau i hyn yw:
 - Ble y gallai camau gweithredu o'r fath roi'r plentyn mewn mwy o berygl;
 - Y posibilrwydd o fygythiadau neu orfodaeth;
 - Colli tystiolaeth bwysig;
 - Dymuniadau'r plentyn nad yw'r rhieni/gofalwyr yn cael gwybod, ar yr amod fod y plentyn yn gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw;
 - Diogelu ymarferwyr, ar y cyd â'r heddlu, fydd yn gwneud y penderfyniadau os y dylid rhoi gwybod i'r rhieni ai peidio ac nid y cyfeiriwr;
 - Bydd y rhesymau dros y penderfyniad yn cael eu cofnodi yn llawn.
- Ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol os oes angen trafod y digwyddiad - yn dibynnu ble mae'r disgybl yn byw:
 - **Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd: 01758 704 455;**
 - **Gwasanaethau Cymdeithasol Môn: 01248 752 733;**
 - **Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy: 01492 575 111;**
- Llenwch ffurflen atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol os oes angen atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Mynychu, neu anfon aelod arall o staff i gynrychioli'r ysgol, pan fo cyfarfodydd Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael eu trefnu;
- Rhowch wybod i'r Pennaeth am yr holl atgyfeiriadau amddiffyn plant, er ei wybodaeth.

BLE YR HONNIR BOD CAMDRINIAETH WEDI DIGWYDD YN YMWNEUD AG AELOD O STAFF.

Mae gofyn i'r Pennaeth, y Swyddog Amddiffyn Plant, neu gadeirydd y llywodraethwyr os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth, gynnal asesiad cychwynnol, ond nid i ymchwilio, i natur ac amgylchiadau yr honiad.

Yn syml iawn dylai'r asesiad yma;

- Sefydlu bod honiad wedi ei wneud;
- Natur gyffredinol yr honiad;
- Pryd a ble yr honnir i'r digwyddiad(au) fod wedi digwydd, pwy oedd yn gysylltiedig ac unrhyw unigolion eraill oedd yn bresennol.

Dylai'r person sy'n cynnal yr asesiad drin y mater yn ddifrifol a chadw meddwl agored. Ni ddylent:

- Ymchwilio na gofyn cwestiynau arweiniol;
- Wneud tybiaethau neu gynnig esboniadau amgen;
- Rhoi addewid o gyfrinachedd - dylid rhoi gwybod i'r person/personau y bydd y pryder yn cael ei rannu ar sail 'gwir angen gwybod'.

Dylid:

- Wneud cofnod ysgrifenedig o'r wybodaeth (ble fo'n bosib dylid defnyddio union eiriau'r plentyn), gan gynnwys amser, dyddiad a'r lle y digwyddodd y digwyddiad honedig, beth a ddywedwyd ac os oedd unrhyw un arall yn bresennol;
- Arwyddo a dyddio'r cofnod ysgrifenedig;
- Adrodd ar unwaith am y mater i'r Person Diogelu Dynodedig /PDD;



- Ble fo'r Person Diogelu Dynodedig yn destun i'r honiad, dylid adrodd y wybodaeth i'r Pennaeth neu i gadeirydd y llywodraethwyr os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth.

Pan wneir honiadau o'r fath, mae pedwar canlyniad posib i'r asesiad cychwynnol:

- (i) Ble fo'r disgybl wedi dioddef, yn dioddef, neu yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, dylid gwneud atgyfeiriad ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol dan y gweithdrefnau amddiffyn plant lleol.
- (ii) Ble fo'r plentyn wedi honni bod trosedd wedi digwydd, yna bydd hyn eto yn cael ei gyfeirio o dan weithdrefnau amddiffyn plant lleol, i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gall yr heddlu gynnal ymchwiliad troseddol.
- (iii) Gall yr honiad gynrychioli ymddygiad amhriodol neu ymarfer gwael gan aelod o staff (sydd ddim yn syrthio o dan y categorïau uchod) sydd angen ei ystyried dan drefn ddisgyblu leol.
- (iv) Ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw sail i'r honiad.

Achosion nad oes angen eu cyfeirio

Bydd adegau pan fo honiadau a wneir ddim angen eu cyfeirio dan y gweithdrefnau amddiffyn plant lleol a fanylir uchod. Mae'r adegau hynny fel a ganlyn:

- d Ble fo'r honiad yn ymwneud â defnyddio grym rhesymol i atal disgybl, yn unol ag a.550A Deddf Addysg 1996 a Chylchlythyr 02295-2013 DfEE a Dogfen Ganllaw 097/2013 Llywodraeth Cymru, bydd yn briodol i'r Pennaeth ymdrin â'r mater ar lefel ysgol. Er hynny, byddai angen ymdrin â honiad o ymosodiad y tu hwnt i rym rhesymol yn unol â'r gweithdrefnau amddiffyn plant lleol fel y manylir arnynt uchod.
- e Ble, yn dilyn yr ystyriaeth gychwynnol, ei bod yn hollol glir i'r Pennaeth (neu pan fo'r honiad yn ymwneud â'r Pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr) a swyddog cysylltiol Ysgolion y Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr honiad yn amlwg yn ffug oherwydd y ffaith bod amgylchiadau uniongyrchol yr honiad yn dangos na fyddai'n bosib i'r honiad fod yn wir, yna gellir ymdrin â'r mater eto ar lefel ysgol.
- f Gall yr honiad gynrychioli ymddygiad amhriodol neu ymarfer gwael gan aelod o staff sydd angen ei ystyried dan drefn ddisgyblu'r ysgol.